

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Charles Street,
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 19 Awst 2025

Dyddiad cyhoeddi: 19 Tachwedd 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	18
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	19
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	20
	Atodiad C – Cynllun gwella	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Charles Street, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 19 Awst 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur i roi gwybod eu barn i ni am weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron gan gleifion a chwblhawyd 3 gan aelodau o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd gan gleifion yn ymddangos yn yr adroddiad. O ganlyniad i'r nifer isel o ymatebion gan staff, nid ydym wedi cynnwys yr adborth hwn ond rydym wedi ei ystyried.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nododd pob claf fod y gwasanaeth roeddent wedi ei dderbyn yn 'dda iawn', ac roedd yr holl adborth a roddwyd am y practis a'r staff yn gadarnhaol. Gwelsom dystiolaeth fod hawliau a thriniaeth gyfartal i unigolion yn cael eu cefnogi a'u cynnal, ac roedd hyn yn cyd-fynd â'r adborth a gawsom gan gleifion am y gofal ag urddas a gawsant drwy gydol eu taith fel claf.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i alluogi clinigwyr a chleifion i gyfathrebu'n effeithiol. Gwelsom hefyd fod y prosesau ar gyfer rheoli apwyntiadau a brysbennu cleifion yr oedd angen gofal brys arnynt yn foddhaol. Dywedodd pob claf wrthym fod iechyd y geg wedi cael ei esbonio iddo mewn ffordd roedd yn gallu ei deall, a gwelsom fod lefel addas o wybodaeth hybu iechyd y geg yn cael ei harddangos.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol.
- Dywedodd pob claf ei fod wedi cael ei gynnwys cymaint ag yr oedd am gael ei gynnwys yn y penderfyniadau ynglŷn â'i driniaeth
- Roedd y practis yn canolbwyntio ar ddarparu gofal i'r cleifion mewn modd amserol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gadw i safon dda er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y cyfarpar deintyddol aml dro mewn cyflwr da ac roedd y gweithdrefnau dihalogi yn gynhwysfawr. Roedd trefniadau diogelwch tân ac iechyd a diogelwch y practis yn briodol er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal diogel mewn lleoliad diogel wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

Roedd cyfarpar diogelu personol yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd ac yn briodol wrth drin cleifion ac roedd y gweithdrefnau rheoli heintiau yn addas. Dywedodd pob claf a ymatebodd i holiadur AGIC bod y mesurau atal a rheoli heintiau bob amser yn cael eu dilyn gan y staff a bod y practis yn 'lân iawn.'

Roedd yr holl gyfarpar brys yn y practis yn ei le ac o fewn y dyddiad defnyddio. Roedd yr holl gofnodion staff a welsom yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant adfywio cardiopwlmonaidd a chymorth cyntaf.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda a'i gadw'n lân.
- Roedd y mesurau diogelu yn gynhwysfawr ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Roedd cofnodion y cleifion yn darparu darlun clir a chynhwysfawr o'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu i'r cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn barod i ymgysylltu, yn wybodus ac yn cefnogi ei gilydd. Gwelsom amgylchedd gwaith cadarnhaol yn y practis a chydberthnasau gwaith da rhwng y staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod gyda phwy y dylent siarad pe bai angen help neu gymorth arnynt ac y byddent yn teimlo'n hyderus yn mynegi pryderon.

Roedd gweithdrefnau sefydlu yn cael eu rheoli mewn ffordd gefnogol ar gyfer aelodau newydd o staff, a gwelsom dystiolaeth fod pob arfarniad yn cael ei gynnal unwaith y flwyddyn. Yn y cofnodion y gwnaethom eu hadolygu, gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau ei hyfforddiant gorfodol a bod y rheolwyr yn rhoi amser i'r staff gwblhau cyrsiau hyfforddiant.

Gwelsom ddull rhagweithiol o wella ansawdd gyda phob gweithgaredd gwella gorfodol yn cael ei gynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheolaidd a chynhwysfawr o gofnodion y cleifion, ansawdd radiograffig, hylendid dwylo yn ogystal ag atal a rheoli heintiau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd strwythurau rheoli clir yn helpu'r practis i redeg yn effeithiol.
- Roedd gofynion addasrwydd i weithio yn cael eu monitro'n effeithiol.
- Roedd gwiriadau cyn cyflogi yn ffeiliau'r staff wedi'u cwblhau'n llawn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion i holiadur AGIC i gleifion yn gadarnhaol. Nododd pob ymatebydd fod y gwasanaeth a gawsant gan y practis yn 'dda iawn'. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

" Mae'r staff bob amser yn hawdd mynd atynt ac yn barod i helpu."

"Mae'r staff i gyd yn gyfeillgar ac yn wybodus iawn am fy nhriniaethau."

"Rwyf bob amser yn fodlon iawn ar y gwasanaeth y mae'r ddeintyddfa hon yn ei ddarparu. Mae'r staff i gyd yn gwrtais, yn gyfeillgar ac yn barod i helpu."

"Maent bob amser yn gwrtais a chroesawgar iawn. Maent yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth a phosteri i gleifion yn cynnwys cyngor ac arweiniad yn ymwneud â chynnal iechyd y geg da, gwiriadau canser y geg, rhoi'r gorau i ysmegu a sepsis ar gael. Roedd datganiad o ddiben y practis a'r daflen wybodaeth i gleifion yn gyfredol ac ar gael i'r cleifion eu gweld ar gais. Roedd y ffioedd ar gyfer gwasanaethau ynghyd ag enwau'r ymarferwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos mewn lle hawdd i'w gweld. Roedd yr oriau agor a'r manylion cyswllt brys yn cael eu harddangos yn glir y tu allan i'r practis.

Nododd pob claf a ymatebodd i holiadur AGIC fod iechyd ei geg wedi cael ei esbonio iddo mewn ffordd y gallent ei deall. Dywedodd pob ymatebydd hefyd ei fod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd da yn y geg.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal urddasol a pharchus i'r cleifion drwy gydol eu taith gofal. Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion fod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch, wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

Dywedodd y staff wrthym nad oedd gwybodaeth bersonol yn cael ei hailadrodd dros y ffôn, ac er bod y dderbynfa ac un o'r ardaloedd aros wrth ymyl ei gilydd, ni chlywsom unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrafod dros y ffôn. Roedd gan y practis ddrysau practis solet a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau ac roedd gan ffenestri'r practis ar y llawr gwaled wydr barugog er mwyn atal cleifion rhag cael eu gweld wrth gael triniaeth. Roedd y mesurau hyn yn cynnal preifatrwydd wrth i'r staff ryngweithio â chleifion.

Roedd gan bob aelod o'r staff gytundeb cyfrinachedd unigol ar waith ac roedd polisi hefyd yn amlinellu cyfrifoldebau'r staff o ran amddiffyn gwybodaeth am gleifion. Gwelsom fod y naw egwyddor graidd a baratowyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Nododd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion nodi eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, a bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad. Dywedodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod risgiau a manteision eu triniaethau wedi cael eu hesbonio yn ogystal â'r costau perthnasol. Ar y cyfan, dywedodd y cleifion eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau ynglŷn â'u triniaeth.

Amserol

Gofal amserol

Roedd trefniadau cadarn ar waith i ddefnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol ac i weld y cleifion mewn modd amserol. Roedd y cleifion yn dueddol o gael eu gweld o fewn pedair i chwe wythnos ar gyfer apwyntiadau arferol neu ychydig yn hirach ar gyfer cleifion dan ofal y GIG. Dywedodd y staff wrthym fod y practis yn agor yn hwyrach, yn achlysurol, i ddiwallu anghenion ei gleifion, gyda phob apwyntiad yn cael ei drefnu'n unol ag argaeledd y claf lle y bo'n bosibl. Dywedodd yr unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo ei bod hi'n 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Nododd un claf fod y staff yn hyblyg o ran eu horiau gwaith.

Roedd y cleifion yn trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb ar ôl eu hapwyntiad. Dywedodd y staff wrthym mai anaml y byddai apwyntiadau yn rhedeg yn hwyr ond pe bai apwyntiad yn rhedeg y tu hwnt i'r amser penodedig, y byddai'r clinigwyr yn rhoi gwybod i'r dderbynfa am unrhyw oedi. Byddai'r cleifion yn cael gwybod dros y ffôn pe byddai'r staff yn ymwybodol o unrhyw oedi cyn iddynt gyrraedd. Gwelsom fod y trefniadau a oedd ar waith yn sicrhau bod unrhyw oedi i

apwyntiadau yn cael ei gyfleu i'r cleifion mewn modd amserol, gydag apwyntiadau amgen yn cael eu cynnig ar gais.

Gwelsom fod system briodol ar waith ar gyfer brysbennu cleifion dros y ffôn er mwyn rhoi blaenoriaeth i'r rhai hynny roedd angen gofal brys arnynt fwyaf. Gwelsom fod amser wedi'i bennu yn nyddiadur y practis bob dydd ar gyfer apwyntiadau brys, a dywedodd y staff wrthym na fyddai unrhyw glaf yn aros dros 24 awr i gael ei weld. Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion gysylltu â'r practis mewn argyfwng. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael canllawiau clir ar yr hyn y dylent ei wneud pe bai ganddynt haint neu argyfwng, a gyda phwy y dylent gysylltu.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau cefnogol ar waith i helpu i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng clinigwyr a chleifion. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hollol ymwybodol o bwysigrwydd cyfathrebu â chlaf yn ei ddewis iaith. Roedd dewisiadau iaith cleifion wedi'u cofnodi ym mhob un o'r cofnodion cleifion a welsom. Roedd y gwasanaeth yn defnyddio Language Line i gyfathrebu â chleifion pan fo angen. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau gwahanol, a gellid darparu gwybodaeth fwy arbenigol ar gais gan gleifion.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi ac roedd dogfennaeth y practis yn cael ei chynnig yn Gymraeg i gleifion Cymraeg eu hiaith fel mater o drefn.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom sut roedd y practis yn cefnogi hawliau a thriniaeth gyfartal i unigolion. Roedd gan y practis bolisiâu addas ar waith i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau'r cleifion a'r staff. Roedd y staff hefyd yn cael eu hannog i gwblhau hyfforddiant penodol i amddiffyn hawliau'r cleifion ac atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu. Roedd polisi dim goddefgarwch o ran ymddygiad ymosodol a thrais a pholisi aflonyddu ar waith er mwyn diogelu'r staff rhag ymddygiad ymosodol.

Dywedodd pob claf a ymatebodd i holiadur AGIC fod yr adeilad yn hygyrch. Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi cael eu gwneud i'r amgylchedd fel addasiad rhesymol i'r cleifion a'r cyflogaion. Roedd hyn yn cynnwys cadair uwch â breichiau i glaf ag anawsterau symudedd a chadeiriau gwahanol i staff â chyflyrau cyhyrsgerbydol. Gwelsom fod hawliau cleifion yn cael eu cynnal ymhellach drwy ganiatáu i gleifion ddewis y rhagenwau, yr enwau a'r rhywedd a ffefrir ar eu cofnodion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd yr adeilad i'w weld mewn cyflwr boddhaol y tu mewn a'r tu allan, yn lân yr olwg ac wedi'i orffen i safon uchel. Roedd y practis wedi'i leoli ar ddau lawr, gydag ardaloedd aros o faint priodol ar gyfer nifer y cleifion a'r pedair deintyddfa. Clywsom linellau ffôn yn gweithio'n iawn a gwelsom ardaloedd newid addas â loceri ar gael i'r staff. Gwelsom fod y toiledau ar gyfer y staff a'r cleifion yn lân a'u bod yn cynnwys y cyfarpar cywir. Fodd bynnag, nid oedd y toiled yn addas i gleifion ag anawsterau symudedd ac roedd cleifion yn cael gwybod am ddewis amgen addas gerllaw lle y bo angen.

Gwelsom fod y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da a bod digon ohono i allu ymgymryd â phrosesau dihalogi effeithiol ar ôl ei ddefnyddio. Gwelsom hefyd fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle bo angen.

Roedd polisïau a gweithdrefnau boddhaol ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff, gan gynnwys mewn argyfwng. Roedd tystysgrifau diogelwch trydanol ar gael ar gyfer offer cludadwy a gwifrau trydanol sefydlog; roedd tystysgrifau diogelwch nwy hefyd ar gael. Gwelsom fod asesiadau risg ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch wedi cael eu cynnal yn ddiweddar ac roeddent yn gynhwysfawr.

Gwelsom fod trefniadau diogelwch tân cadarn a chynhwysfawr ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys cynnal a chadw a phrofi cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd, ynghyd ag arwyddion clir tuag at yr allanfeydd tân ac arwyddion dim ysmegu clir. Roedd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr y practis a phoster gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cael eu harddangos.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisïau a gweithdrefnau atal a rheoli heintiau ar waith i gynnal lefel dda o lendid yn y practis ac i allu rhoi gofal diogel i'r cleifion.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael fel mater o drefn i bob aelod o'r staff, ac roedd y gweithdrefnau hylendid dwylo a'r arwyddion yn addas. Roedd chwistrellau diogelwch ychwanegol yn cael eu defnyddio er mwyn atal anafiadau a achosir gan nodwydd a dywedodd y staff wrthym eu bod weithiau'n defnyddio chwyddwydrau i'w helpu i weld. Gwelsom fod asesiadau risg priodol ar waith i fonitro'r risg o niwed o anafiadau offer miniog ac roedd y bwrdd iechyd yn darparu gwasanaethau iechyd galwedigaethol i'r staff. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus

o'r trefniadau cyfarpar diogelu personol a oedd ar waith. Roedd y trefniadau hyn yn golygu bod modd rhoi gofal diogel i'r cleifion gan sicrhau diogelwch y staff ar yr un pryd.

Nododd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn'. Dywedodd pob un o'r cleifion hefyd bod y staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau, a dywedodd un claf:

"Mae bob amser yn lân iawn ac mae'r staff yn gwisgo dillad priodol. Rwyf hefyd yn gweld y cyfarpar yn cael ei sterileiddio."

Gwelsom fod yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw i lefel foddhaol er mwyn gallu eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol. Roedd y gweithdrefnau i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn ystafell ddihalogi'r practis yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio yn gywir yn addas. Roedd gwaith glanhau â llaw a gwaith sterileiddio yn cael ei gynnal ar yr awtoclaf. Gwnaethom edrych ar gofnodion priodol o archwiliadau a phrofion dyddiol o gylchred y peiriant awtoclaf, yn ogystal ag amserlen cynnal a chadw reolaidd yn unol â chanllawiau presennol. Roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddihalogi cyfarpar yn gywir.

Roedd yr holl wastraff clinigol yn cael ei storio a'i waredu'n gywir drwy contract gwaredu gwastraff priodol. Roedd y prosesau a oedd ar waith ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) yn foddhaol.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer codi a chario, storio, defnyddio a gwaredu unrhyw feddyginiaethau yn ddiogel yn gadarn. Roedd yr oergell a ddynodwyd ar gyfer storio meddyginiaethau yn cael ei rheoli'n gywir, gyda gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n briodol. Gwelsom fod padiau presgripsiwn y practis yn cael eu storio'n ddiogel mewn cabinet dan glo.

Nodwyd gennym fod mesurau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos tystiolaeth o gymwysterau boddhaol mewn perthynas ag adfywio cardiopwlmonaidd ar gyfer pob aelod o'r staff ac roedd nifer addas o swyddogion cymorth cyntaf. Roedd silindrau ocsigen yn cael eu gwasanaethu'n briodol, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar sut i'w defnyddio. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod pob eitem yn bresennol, yn hawdd mynd ati ac o fewn y dyddiad defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar yr holl gyfarpar brys.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu priodol a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau yn cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru, yn nodi arweinydd diogelu wedi'i enwi ac yn cynnwys siart lif hawdd ei deall yn cynnwys manylion cyswllt gwasanaethau cymorth lleol. Roedd diweddariadau i'r polisïau a'r gweithdrefnau diogelu yn cael eu rhannu drwy hyfforddiant, y bwrdd iechyd ac aelodaeth y practis o Denplan. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion.

Gwnaeth pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw esbonio y byddent yn gwybod sut i nodi achosion o gam-drin, gyda phwy y dylent gysylltu pe bai ganddynt bryder diogelu ac y byddent yn teimlo bod y practis yn eu cefnogi pe byddent yn gwneud hynny.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau meddygol a'r cyfarpar clinigol mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom sut roedd y dyfeisiau a'r cyfarpar hyn, ynghyd â'r cyfarpar deintyddol aml dro, oll yn cael eu defnyddio mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw ac y gwnaethom arsylwi arnynt yn ystod yr arolygiad yn hyderus wrth ddefnyddio'r cyfarpar ac roedd y cofnodion yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer gwasanaethu'r holl gyfarpar a archwiliwyd gennym ac ar gyfer ymateb yn gyflym i fethiannau yn y system.

Roedd ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis ar gael ar-lein ac roedd copïau cyflawn o'r rheolau lleol ar gael yn hwylus. Roedd y clinigwyr yn amlinellu'n glir yng nghofnodion y cleifion y trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch risgiau a manteision dod i gysylltiad ag ymbelydredd. Roedd cofnodion hyfforddiant staff yn cadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau o ran dod i gysylltiad ag ymbelydredd.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Nodwyd gennym fod y staff yn gwneud asesiad diogel a diagnosis o anghenion cleifion. Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn dangos tystiolaeth bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag angen clinigol, ac yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol. Roedd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw yn dangos dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent yn gwybod pryd y dylid gofyn am gyngor proffesiynol perthnasol, pan fo angen. Roedd copïau o Lyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (BNF) ar gael ar gyfrifiadur bwrdd gwaith pob ymarferydd i'w helpu i ragnodi ac i osgoi gwallau meddyginiaeth.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi dealltwriaeth a chydysniad cleifion i driniaethau llawfeddygol. Gwelsom ddefnydd priodol o restrau gwirio clinigol er mwyn atal achosion o dynnu dannedd o'r man anghywir.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom adolygu cofnodion wyth claf yn ystod ein harolygiad. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw mewn system ddigidol ddiogel yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd y cofnodion a welsom yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r gofal a ddarperir i'r cleifion. Roedd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth addas am gydsyniad ar sail gwybodaeth, siartiau sylfaenol llawn, gwiriadau tu mewn a thu allan i'r geg yn ogystal â chofnod ar y pryd o'r triniaethau a ddarparwyd.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom fod y clinigwyr yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n diwallu anghenion eu cleifion mewn lleoliad addas. Roedd y cleifion yn datblygu drwy lwybrau trin mewnol ac allanol yn effeithlon. Roedd atgyfeiriadau brys yn cael eu cofnodi'n briodol ac roedd y clinigwyr yn eu holrhain mewn modd amserol. Gwelsom fod apwyntiadau yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan aelodau o staff â chymysgedd priodol o sgiliau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn cefnogi'r broses o redeg y practis yn effeithiol. Dywedodd aelodau tîm arwain y practis wrthym eu bod yn teimlo bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu rolau arweinyddiaeth yn effeithiol. Roedd sgrymiau dyddiol yn cael eu cynnal ac roedd cyfarfodydd staff ffurfiol yn cael eu cynnal bob mis ac roedd pob aelod o'r staff yn eu mynychu. Lle na fyddai'r staff yn gallu mynychu, byddent yn llofodi i ddweud eu bod wedi darllen y cofnodion. Wrth adolygu cofnodion o'r cyfarfodydd staff, gwelsom fod trafodaethau addas wedi'u cynnal am restrau gwirio'r deintyddfeydd, gwella ansawdd, apwyntiadau brys ac adborth gan gleifion.

Roedd system addas ar waith i nodi, cofnodi a rheoli risgiau, materion ac unrhyw gamau lliniaru. Roedd rheolwr y practis yn rhoi gwybod i'r staff am hysbysiadau diogelwch mewn cyfarfodydd a byddai unrhyw hysbysiadau perthnasol yn cael eu harddangos.

Roedd holl bolisiau'r practis yn cael eu cadw fel rhan o 'lawlyfr y practis' er mwyn gallu dod o hyd iddynt yn hawdd. Roedd y polisiau a welsom yn gyfredol ac yn gynhwysfawr, a gwelsom fod y staff yn cael gwybod am newidiadau mewn ffordd effeithiol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Ar y cyfan, gwelsom amgylchedd gwaith cadarnhaol yn y practis. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn wybodus ac yn broffesiynol, ac roedd y rhyngweithio a welsom rhwng y staff yn dangos eu bod yn amlwg yn cefnogi ei gilydd. Roedd rheolwr y practis yn goruchwyllo gweithdrefnau sefydlu ac roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod y gweithdrefnau hyn yn gadarn. Roedd arfarniadau yn cael eu cynnal bob blwyddyn ac esboniodd y rheolwyr broses addas ar gyfer rheoli unrhyw broblemau o ran perfformiad.

Gwnaethom edrych ar gofnodion 5 o'r 16 o aelodau o staff sy'n gweithio yn y practis. Roedd y cofnodion hyn yn dangos bod trefniadau addas ar waith i fonitro a chynnal rhwymedigaethau proffesiynol yr aelodau hynny o staff sy'n gweithio yn y practis o'r adeg y cawsant eu cyflogi. Roedd cofnodion yr holl aelodau o staff a welsom yn gwbl gyflawn, gan gynnwys cofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a

gwiriadau geirda cyn cyflogi. Gwelsom fod systemau monitro cadarn ar waith i gynnal gofynion addasrwydd i weithio pob cyflogai.

Roedd cofnodion y staff a welsom yn dangos tystiolaeth o gydymffurfiaeth lawn â'r holl hyfforddiant gorfodol. Roedd pob aelod o'r staff yn cael amser i gwblhau eu hyfforddiant, a dywedwyd wrthym fod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ychwanegol sy'n berthnasol i'w rolau ac roedd hyn yn amlwg yn y cofnodion a welsom. Roedd gan reolwr y practis system addas ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

Roedd polisi chwythu'r chwiban y practis yn rhoi arweiniad i'r staff ar sut i godi pryderon. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hyderus i roi gwybod am bryderon, a'u bod yn hyderus y byddai'r practis yn eu trin yn deg pe byddent yn gwneud hynny. Dywedodd y staff hefyd y byddai'r practis yn cymryd camau gweithredu i sicrhau na fyddai digwyddiadau yn ailadrodd.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Roedd arolygon ar gael i'r cleifion yn yr ystafelloedd aros ac roedd y cleifion yn cael cynnig codau ymateb cyflym (QR) i'w sganio er mwyn cwblhau arolygon ar-lein. Roedd ffurflenni adborth ar bapur yn cael eu hadolygu bob wythnos ar roedd ffurflenni ar-lein yn cael eu gwirio ar ôl i reolwyr y practis eu derbyn. Roedd ymatebion i adborth yn cael eu cyhoeddi yn ardal y dderbynfa ar fwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni'.

Roedd y polisi cwynion yn cyfateb yn llawn i weithdrefnau Gweithio i Wella y GIG ac roedd yn cael ei hysbysebu i'r cleifion yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn gwyno yn nodi unigolyn penodol i'r cleifion gysylltu ag ef. Roedd unrhyw gwynion ar lafar yn cael eu cofnodi a'u cyfleu i reolwr y practis mewn modd amserol er mwyn eu datrys. Roedd sut i uwchgyfeirio cwyn wedi'i nodi yn y polisi cwynion gan gleifion, gan gynnwys manylion cyswllt ar gyfer AGIC a'r gwasanaeth eirioli i gleifion, Llais.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau proffesiynol o ran y Ddyletswydd Gonestrwydd. Gwelsom fod polisi'r practis yn addas a bod hyfforddiant ar gael i bob aelod o'r staff drwy'r bwrdd iechyd. Er nad oedd cofnodion o unrhyw gwynion neu ddigwyddiadau diweddar o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd, cawsom sicrwydd bod y prosesau ar waith yn gadarn.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom ddull rhagweithiol o wella ansawdd gyda phob gweithgaredd gwella gorfodol yn cael ei gynnal. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheolaidd a chynhwysfawr o gofnodion cleifion, ansawdd radiograffig, hylendid dwylo yn ogystal ag archwiliadau atal a rheoli heintiau. Roedd y practis hefyd wedi cynnal y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn 2024 er mwyn helpu i ysgogi gwelliant parhaus. Dywedwyd wrthym y bydd y practis yn dod yn aelod o Denplan Excel yn fuan ac yn dechrau gwneud gweithgareddau gwella ansawdd ychwanegol rheolaidd drwy'r aelodaeth honno.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Esboniodd y staff sut maent yn cynnal cydberthnasau gwaith da â phartneriaid eraill sy'n rhan o'r system iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys y meddyg teulu a'r fferyllfa leol. Gwelsom fod proses briodol ar waith i fonitro a chynnal atgyfeiriadau sy'n dod i mewn ac sy'n mynd allan.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Charles Street

Dyddiad yr arolygiad: 19 Awst 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Deintyddol Charles Street

Dyddiad yr arolygiad: 19 Awst 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid yw'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella.					